



MENTER MYFYRWYR ADRODDIAD EFFATH

MEDI 2023 - AWST 2024

BYDDWCH YN YSBRYDOLEDIG | CYMERWCH RAN | BYDDWCH YN FENTRUS

Gan y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

CWRDD Â'R TÎM MENTER

Mae'r tîm mentor myfyrwyr canolog yn rhan o'r Gwasanaethau Arloesi, Ymchwil ac Ymgysylltu (REIS). Maen nhw'n gyfrifol am gyflwyno rhaglen strategol Entrepreneuriaeth Ieuencid Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Fenter y sefydliad ar gyfer 2023-28, trwy gefnogi myfyrwyr a graddedigion i fod yn fwy entrepreneuriaid a darparu'r meddylfryd, y profiadau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddechrau eu busnes eu hunain, gyrfa lawrydd neu fenter gymdeithasol. Maen nhw hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymadau ar gyfer gweithgareddau masnachol, twf busnes newydd a chenhadaeth ddinesig fel y nodir yng Nghronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF).

CYSYLLTU Â NI

-  enterprise@swansea.ac.uk
-  www.swansea.ac.uk/enterprise
-  [Swansea University Enterprise](https://www.facebook.com/SwanseaUniversityEnterprise)
-  [Enterprise_SwanUni](https://www.instagram.com/Enterprise_SwanUni)
-  [Swansea-university-enterprise](https://www.linkedin.com/company/swansea-university-enterprise)
-  [Enterprise_SwanUni](https://www.tiktok.com/@Enterprise_SwanUni)

GRANT ENTREPRENEURIAETH IEUENCTID LLYWODRAETH CYMRU

Mae'r tîm mentor myfyrwyr yn cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc er mwyn annog a chefnogi pobl ifanc i fod yn fwy entrepreneuriaid a helpu'r rhai sydd â diddordeb mewn dechrau busnes i frwr ymlaen â'u syniadau.

CRONFA ARLOESI YMCHWIL CYMRU (RWIF)

Mae MEDR (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) wedi darparu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i gynnal y gweithgareddau arloesi presennol ym Mhrifysgol Abertawe a chynyddu'r gallu i gefnogi sefydliadau ledled y rhanbarth.

PRIFYSGOLION SANTANDER

Fel un o **75** Prifysgol Santander, mae Prifysgol Abertawe'n derbyn cyllid i gefnogi Addysg, Cyflogadwyedd a Mentor. Mae **£15,000** o hyn yn cefnogi myfyrwyr i ddechrau busnesau, a chaiff ei ddyfarnu drwy gystadleuaeth Big Pitch y Brifysgol.

AMDANOM NI...



EMMA DUNBAR

Pennaeth Ymgysylltu, Arloesi, ac Entrepreneuriaeth



KELLY JORDAN

Uwch-swyddog Cymorth Mentergarwch



PAIGE WINDIATE

Swyddog Cymorth Marchnata Mentergarwch



ANGUS PHILLIPS

Swyddog Cymorth Mentergarwch



JOEL BOWEN

Cynorthwy-ydd Cymorth Mentergarwch

EIN GWELEDIGAETH

STRATEGAETH FENTER Y SEFYDLIAD 2023-2028

Mae mentor ac entrepreneuriaeth wrth wraidd arloesedd ym Mhrifysgol Abertawe. Fel sefydliad sy'n cynnal llawer iawn o ymchwil, ein gweledigaeth yw bod yn brifysgol sydd ar y blaen yn fyd-eang o ran grymuso unigolion i greu newid cadarnhaol yn y byd trwy fenter, arloesedd, partneriaeth, cyfnewid gwybodaeth, ac ymgysylltu cymunedol trawsnewidiol. Rydym yn ceisio creu gwaddol parhaus o effaith a gwerth ychwanegol sy'n cyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

EIN CENHADAETH

- Gwella ein henw da ym maes mentergarwch ac entrepreneuriaeth trwy hyrwyddo amgylchedd agored a deinamig, llawn ymddiriedaeth ar gyfer cydweithio, creadigrwydd, a chymryd cyfleoedd o fewn ein cymuned staff a myfyrwyr, a gyda'n partneriaid.
- Meithrin talent a blaenoriaethu amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu a llwyddo.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu ymchwil ac arloesedd cydweithredol sy'n gallu cyfieithu, creu mentor ac atebion arloesol a fydd yn effeithio ar rai o heriau mwyaf dybryd y byd.
- Gosod Prifysgol Abertawe fel partner a ffefrir yn y DU wrth ymateb i anghenion ein rhanbarth a chyflawni er budd y cyhoedd.

Wedi dod yn ail ar gyfer
Gwobr Prifysgol Arloesol ac Entrepreneuriaid y Triple E Awards 2024

YN 20 UCHAF Y DU
ar gyfer busnesau newydd wedi'u dechrau gan fyfyrwyr a graddedigion
HEBCI 2022/23

Yr Ysgol Reolaeth wedi cael achrediad y **Small Business Charter** a'r **Charter for Inclusive Entrepreneurship**

Rhestr fer **Gwobr Prifysgol Entrepreneuriaid Eithriadol** y Times Higher Education 2021 a 2023

3ydd lle gorau yn y DU i dechrau busnes
Incorp UK 2024

YMROI I'N MYFYRWYR AR DRAWS POB DISGYBLAETH

Rydym ni wedi creu fframwaith i gefnogi "Taith Entrepreneuraid" ein myfyrwyr trwy ddarparu amgylchedd cynhwysol a hygyrch i helpu ein myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau, meddylfryd a chydnerthedd entrepreneuraid er mwyn eu hannog i ddechrau busnesau newydd.



18,382 WEDI YMGYSYLLTU

Cyflwynwyd myfyrwyr i entrepreneuriaeth trwy sgysiau i godi ymwybyddiaeth, gweithgareddau a digwyddiadau gyrfaoedd.



3,316 WEDI'U GRYMUSO

Archwilio a datblygu eu gallu entrepreneuraid drwy gynnal gweithdai, hacathonau a mentrau entrepreneuraid.



1,839 O SYNIADAU WEDI'U DILYSU

Trwy fasnachu prawf a mentora.



276 WEDI'U MEITHRIN

Er mwyn dechrau busnes trwy gyfarfodydd cyngor busnes 1-2-1.




92 O FUSNESAU WEDI DECHRAU



YMRWYMIAD I FENTER YN Y CWRICWLWM

1,436 O FYFYRWYR: WEDI COFRESTRU AR 42 O FODIWLAW SY'N CANOLBWyNTIO AR FENTER, ENTREPRENEURIAETH NEU ARLOESI

42 O FODIWLAW



Cwrs Datblygu Gyrfa

Adnoddau hygyrch ac integredig ynghyd â rhaglen o weithdai, sesiynau hyfforddi a seminarau i wella'r sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithgaredd menter. Mae enghreifftiau'n cynnwys ein "Cwrs Datblygu Gyrfa". Fel rhan o'r cwrs, gall myfyrwyr a graddedigion diweddar ymgymryd ag unedau o'u gwirfodd i wella eu cyflogadwyedd. Mae "Dechrau Eich Busnes Eich Hun" yn un o'r 16 uned, ac mae 103 o bobl wedi ymgymryd â'r uned.

Edrych i'r Dyfodol: Priodoleddau Graddedigion

I gyd-fynd â Strategaeth Fenter y sefydliad, mae'r brifysgol yn dylunio Strategaeth Gyflogadwyedd a Sgiliau newydd, lle bydd cymwyseddau, priodoleddau ac ymddygiadau "menter" yn cael eu datblygu fel rhan o amcan y brifysgol. Mae creu "Meddylwyr Arloesol" yn un o'r 5 o briodoleddau graddedigion sy'n rhan o'r gwaith o ailgynllunio cwricwlwm y brifysgol (y lleill yw bod yn gymwys yn broffesiynol ac yn ddisgyblaethol, gallu mynd i'r afael â heriau byd-eang, bod yn gyfathrebwyr effeithiol a bod yn arweinwyr cydweithredol).

"Bydd y sgiliau proffesiynol y mae myfyrwyr yn eu datblygu drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau entrepreneuraid ac arloesol yn eu paratoi ar gyfer llwyddiant yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Drwy ymgorffori Priodoleddau Graddedigion yn y cwricwlwm, bydd myfyrwyr yn cael cyfle i greu, cymhwyso a myfyrio ar syniadau i fynd i'r afael â heriau cymhleth yn y byd go iawn, sy'n ychwanegu gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, ac yn sicrhau y bydd pob myfyriwr yn profi meddylfryd a chamau gweithredu entrepreneuraid yn ystod eu hamser ym Mhrifysgol Abertawe. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous iawn."

Yr Athro Gavin Bunting, Dirprwy Is-Ganghellor Sgiliau a Chyflogadwyedd

ENTREPRENEURIAETH LLAWN YSBRYDOLIAETH


Sylfaenwyr y Dyfodol

Mae Prifysgol Abertawe yn falch iawn o fod wedi ffurfio partneriaeth ag Anne Boden MBE, sylfaenydd Starling Bank, a raddiodd mewn Cyfrifiadureg a Chemeg o Brifysgol Abertawe ym 1981. Fel rhan o'i chenhadaeth fel Cadeirydd Tasglu Llywodraeth y DU ar fentrau twf uchel dan arweiniad menywod, nod y tasglu yw codi dyheadau'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid benywaidd. Mewn cydweithrediad â Ms Boden, mae Prifysgol Abertawe wedi creu cyfres o astudiaethau achos llawn ysbrydoliaeth, ganddynusylwafenywod arloesol a chynnig gwersi amhriadiwy i fyfyrwyr a'r gymuned ehangach.



Sganiwch neu cliciwch y cod QR i wybod mwy am Ddatblygwyr y Dyfodol.

Bu Hyb Cydraddoldeb Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r brifysgol i greu a chyhoeddi fideo ar ffurf cyfweiliad yn cynnwys eu datblygwyr benywaidd yn sôn am ddiffyg cynrychiolaeth ac amrywiaeth ymysg entrepreneuriaid arloesol.



I lansio'r astudiaethau achos, cynhaliodd Anne ddau ddigwyddiad **Datblygwyr y Dyfodol** ym Mhrifysgol Abertawe. Gan ddod â chefnogwyr o bob rhan o'r DU ynghyd, canolbwyntiodd y digwyddiad ar dynnu sylw at y rhwystrau y mae menywod mewn busnesau yn eu profi a sut y gellir eu herio a'u newid.



Ar y panel i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol gyda'u teithiau entrepreneuriaid - sy'n amrywio o gael gafael ar gyllid i frwydro yn erbyn stigma yn eu diwydiannau - roedd yr entrepreneuriaid ifanc ysbrydoledig Eccie Newton o Karma Kitchens, Joelle Drummond o Drop Bear Beer (sydd hefyd yn gyn-fyfriwr Prifysgol Abertawe) a Hannah Lamden o Finery Media. Daeth staff a myfyrwyr o bob rhan o'r brifysgol i'r digwyddiad, yn ogystal â myfyrwyr o gynysgol uwchradd Anne, Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed.



Roedd y sgysiau "rownd y tân" gyda'r nos yn cynnwys trafodaethau gydag entrepreneuriaid a buddsoddwyr ar fyd cyfalaf menter. Dim ond 2% o gyfalaf menter sy'n cael ei fuddsoddi mewn busnesau a sefydlwyd gan fenywod, er eu bod yn ystadegol yn fwy tebygol o lwyddo. Mae gwaith Anne ar dasglu Llywodraeth y DU yn allweddol o ran newid y ffigur hwn, y naratif ac o ran denu mwy o gefnogaeth i fuddsoddi mewn busnesau a sefydlwyd gan fenywod.

ADEILADU CYMUNEDAU O ENTREPRENEURIAID

Rydym ni'n cynnal digwyddiadau a mentrau i adeiladu cymunedau o entrepreneuriaid ymhlith ein myfyrwyr a'n graddedigion, gan gynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr a chymdeithasau arwain eu gweithgareddau eu hunain â ffocws ar fenter, gan greu cymuned entrepreneuriaeth sy'n gynhwysol, yn hygyrch ac yn llawn cysylltiadau.

Hacathon Invent for The Planet

Prifysgol Abertawe yw'r unig brifysgol yn y DU sy'n cymryd rhan yn Hacathon byd-eang Invent for the Planet A&M Texas, sy'n herio timau o fyfyrwyr Gwyddoniaeth a Pheirianeg o 27 prifysgol ledled y byd i ddatblygu cysyniadau arloesol mewn ymateb i broblemau mwyaf dybryd y byd. Dan arweiniad ein partneriaid strategol, Prifysgol A&M Texas, gyda chefnogaeth y fîm mentor myfyrwyr, cymerodd ein myfyrwyr ran yn y gystadleuaeth 48 awr ym mis Chwefror, a daeth fîm buddugol Abertawe, PureFlow, yn ail yn rownd gyn-derfynol Ewrop yn Galway, Iwerddon.

Dros y penwythnos, datblygodd y myfyrwyr eu cysyniad, eu prototeip a gwneud cyflwyniad byr a chyflwyniad fideo ar gyfer eu syniad. Cafodd y cyfranogwyr eu tywys drwy'r penwythnos gan arbenigwyr o'r byd academaidd a diwydiant.

- 1 FENTER DAN ARWEINIAD MYFYRWYR
- 5 DIGWYDDIAD I DDATBLYGU ENTREPRENEURIAID PGR
- 35 DIGWYDDIAD I DDATBLYGU RHWYDWEITHIAU A CHYMUNEDAU
- 58 DEFNYDDIWR LAUNCHPAD




Adborth gan fyfyrwyr sy'n cymryd rhan

"Dyma beth yw pwrpas peirianeg. Fe fyddwn i'n ei wneud eto mewn chwinciad."

"Roedd Invent for the Planet yn llawer mwy na'r disgwyl. Roedd yn brofiad trawsnewidiol!"

"Profiad gwerth chweil ar gyfer rhoi'r hyn rydych chi'n ei ddysgu yn y dosbarth ar waith a'i gymhwyso i broblemau bywyd go iawn."



Gwylwch fideo Invent for the Planet 2023 trwy glicio neu sganio'r cod QR.



"Mae'r datblygiadau arloesol a ddatblygwyd gan y timau wedi bod yn anhygoel, gan ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r blaned a defnyddio gwaith tîm, dyfalbarhad a dyfeisgarwch i oresgyn y rhwystrau hyn. Darparwyd atebion i rai o'r materion mwyaf dybryd, ac alla i ddim aros i weld sut y caiff pob un ei ddatblygu a'r hyn sy'n dod nesaf i bob un o'r myfyrwyr a'u syniadau. Fel mentor, roedd yn brofiad anhygoel bod yn rhan o Invent for the Planet."

James Courtney, Darlithydd Cemeg, Mentor IFTP

Digwyddiadau Rhwydweithio Cwrdd a Chymysgu

Cynhaliwyd digwyddiadau rhwydweithio Cwrdd a Chymysgu mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Roedd y rhain yn cael eu cynnal bob semester i helpu ein myfyrwyr entrepreneuraidd i ddatblygu eu rhwydweithiau, datblygu sgiliau a dysgu am fentrau newydd yn y rhanbarth. Eleni, roedd y digwyddiadau Rhwydweithio Cwrdd a Chymysgu yn cynnwys cyfleoedd i gwrdd â'n Entrepreneur Preswyl newydd, Chris James, ac ymgyswrtwyrdd â'r gefnogaeth sydd ar gael gan y tîm menter myfyrwyr. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys cydweithwyr o Syniadau Mawr Cymru i arddangos y gefnogaeth sydd ar gael i oedolion ifanc yn y rhanbarth.

Rhwydweithio Cwrdd a Chymdeithasu

Sganiwch neu cliciwch y côd QR i gael rhagor o wybodaeth am ein digwyddiadau Rhwydweithio Cwrdd a Chymdeithasu.

Marchnadoedd Gwneuthurwyr


Mae croeso i fasnachwyr sy'n fyfyrwyr a busnesau lleol i ddod i werthu eu nwyddau a'u gwasanaethau ym marchnadoedd tymhorol ein Marchnadoedd Gwneuthurwyr bob semester ar y ddau gampws. Fe'u cynhelir mewn cydweithrediad â Chyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Eleni, bu 22 o fyfyrwyr yn masnachu ar y campws ac yn lleol, gan helpu i ddatblygu'r gymuned leol o fasnachwyr annibynnol a'u technegau gwerthu hanfodol. Gyda thua 775 o fyfyrwyr a staff yn dod i'r Marchnadoedd Gwneuthurwyr, gwnaed tua £3,049.70 gan fasnachwyr.

Marchnadoedd Gwneuthurwyr

Cefnogwch busnesau newydd a gwerthwyr lleol yn ein Marchnad Gwneuthurwyr!

Y Launchpad

Mae'r Launchpad wedi'i ddynodi'n fan dynodedig ar ein Campws yn Singleton ar gyfer myfyrwyr a graddedigion diweddar sy'n rhan o fenter i gynnal cyfarfodydd busnes, datblygu cynlluniau a rhwydweithio gydag eraill sy'n sefydlu busnes. Mae'r gofod hefyd yn cynnal digwyddiadau a gweithdai a gynhelir gan dîm menter myfyrwyr y brifysgol.



"Roedd y Launchpad yn sylfaen ardderchog ar gyfer gweithrediadau fy busnes. Mae wedi'i leoli mewn man gwych ar Gampws Singleton, ac roedd gallu defnyddio'r gofod hwn i fusnesau newydd am ddim yn rhoi cyfle i ni gynnal cyfarfodydd, creu a ffilmio cynnwys ar gyfer ein sianeli, a hyrwyddo ein busnes mewn ffordd effeithiol."

Teffanie Maramba, sylfaenydd The Abishai Box

24

O GYN-FYFYRWYR YN RHAN O WEITHGARWCH

Taleb £200

Rydym ni'n cefnogi myfyrwyr a chymdeithasau i gynnal eu digwyddiadau menter eu hunain yn y brifysgol trwy gynnig y daleb Just Enterprise It gwerth £200. Gall y daleb gael ei defnyddio i helpu i ariannu gweithgareddau fel lansio cynnyrch, gweithdai ar gyfer sefydlu busnes a thrafodaethau panel gydag entrepreneuraidd.

Entrepreneurship masterclass

Purchase tickets at <https://rb.gy/g7fur2> OR use the QR code below OR just turn up at the door!

FREE TICKETS+ SNACKS

GUIDE 101 TO STARTING A BUSINESS

Wednesday 24th April 16:00 - 18:00
Swansea University Bay Campus, School of Management, Room 011

Guest Speaker:
Ffion McCormick Edwards
owner of sustainable accessories business Barefoot Tech will share her inspiring story and experience of starting her own business

Business advisors will be present to speak and guide students who are interested in starting their own business

TALK TO US
Email: 2222013@swansea.ac.uk
Instagram: [enterpriseclasses](https://www.instagram.com/enterpriseclasses)

Syniadau Big Mawr Ideas Cymru Wales

Busnes Cymru Business Wales

YMRWYMIAD I GEFNOGI PARTNERIAID A RHANDEILIAID

Expo Sefydlu Busnesau Newydd 4TheRegion

Rhoddodd y tîm menter myfyrwyr gyflwyniad yn y Swansea Start-Up Expo yn Arena Abertawe, a gynhaliwyd gan ein partner rhanbarthol, 4TheRegion. Nod y digwyddiad oedd cyflwyno gweithdai ar fenter ac arloesi i dros 500 o fynychwyr gydol y dydd, gan gynnwys 40 o fyfyrwyr o Brifysgol Abertawe.

Roedd y sesiynau gydol y dydd yn cynnwys arbenigwyr o bob rhan o Ranbarth Bae Abertawe ac yn ymdrin â phynciau mor amrywiol â chynllunio busnes, marchnata, cyllid a threthi.

Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys dau o raddedigion Abertawe, Saadia Abubaker, un o'r siaradwyr ar y Panel Ieuentid, a Hannah Worth, un o'r siaradwyr ar y Llwyfan Straeon Sefydlu Busnes.

10

REGIONAL PARTNER EVENTS SUPPORTED

Gweithdy Cyflwyno Cynigion gydag ICE Cymru

Gan weithio mewn partneriaeth â ICE Cymru, cyflwynwyd Gweithdy Cyflwyno Cynigion ar gyfer myfyrwyr sy'n chwilio am fuddsoddiad. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar y rhinweddau gorau y mae beirniaid yn chwilio amdanynt, yn ogystal â sut i gyflwyno cynnig amserol ac effeithiol.



Busnesau Cynaliadwy yn Wythnos Byddwch yn Wyrdd

Mae Wythnos Byddwch yn Wyrdd yn wythnos flynyddol o weithdai, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo a dathlu cynaliadwyedd ac amgylchedd gwyrdd. Roedd yn cynnwys trafodaethau panel a sgrysiâu gan Eco-Sylfaenydd, gweithdai ar fusnesau newydd gwyrdd a gwybodaeth am gefnogaeth leol i fusnesau cynaliadwy.

SWANSEA START-UP EXPO

Your city wants YOU to start your business!

This is your golden opportunity to explore self-employment and kick-start your entrepreneurial journey! Bringing together all of Swansea's experts and support services, from grant providers to marketing gurus, all ready to help you succeed, whatever your trade, talent or passion may be!

WED 6TH MARCH 2024 | SWANSEA ARENA

DAYTIME EVENT 2PM-5PM

EVENING EVENT 5PM-8PM

4TheRegion WORKING TOGETHER

Prifysgol Cymru Prifysgol Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Cyngor Abertawe Swansea Council

Swansea University Prifysgol Abertawe

CEFNOGI EIN BUSNESAU NEWYDD

Rydyn ni'n cefnogi myfyrwyr drwy eu taith wrth iddyn nhw sefydlu busnes ac yn helpu'r rhai sydd eisoes mewn busnes i dyfu, trwy gyfrwng grantiau sefydlu, sesiynau ymgynghori a rhoi cyngor busnes, gweithdai rhyngweithiol, b t-camp i fusnesau, mentora a mwy.

Entrepreneur Preswyl

Mae Chris James yn entrepreneur profiadol iawn sydd wedi sefydlu 8 busnes ac wedi bod yn gyfarwyddwr mewn 14 cwmni cyfyngedig yn y diwydiannau technoleg, manwerthu, meddalwedd, gwasanaethau proffesiynol, y trydydd sector a marchnata. Yn ystod ei 35 mlynedd o ymgynghori, mae Chris wedi gweithio gyda sefydliadau academaidd, asiantaethau datblygu ac ystod eang o gwmnïau, gan gynnwys mwy na 400 o fusnesau BBaCh. Eleni, mae Chris wedi cefnogi 36 o fyfyrwyr a graddedigion gyda chyfarfodydd sefydlu busnes personol i roi arweiniad iddynt ar eu taith fusnes.



"Hoffwn i fynegi fy ngwerthfawrogiad diffuant am y cymorth a'r arweiniad a ddarparwyd gan Chris. Drwy gydol ein rhyngweithiadau diweddar, mae Chris wedi dangos lefel heb ei hail o broffesiynoliaeth, arbenigedd ac ymroddiad i'm cynorthwyo i ddatblygu fy syniad am fusnes newydd."
Jessica Wang
 Myfyriwr Marchnata Strategol

Bwt-camp Rhyng-brifysgol Unpreneur

Sefydliad cymorth busnes yw UNpreneur sy'n gweithio gyda cholegau a phrifysgolion i ddatblygu sgiliau eu myfyrwyr entrepreneuriaid ymhellach. Drwy gydol mis Mehefin 2024, cymerodd 43 o fyfyrwyr Prifysgol Abertawe ran yn eu b t-camp rhyng-brifysgol ar-lein, a oedd yn cynnwys myfyrwyr o lawer o brifysgolion eraill y DU, ac a helpodd i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd entrepreneuriaid.



3 BWT-CAMP BUSNES

26 BUSNES NEWYDD WEDI'U MENTORA

60 MYFYRIWR AR BWT-CAMP BUSNES

Masnachu ar y Campws

Gydol y flwyddyn, mae myfyrwyr yn cael cyfle i fasnachu eu nwyddau ar y campws gan ddefnyddio ein stondinau masnachu. Eleni, defnyddiwyd y rhain ar 27 achlysur gan fyfyrwyr sydd hefyd yn fasnachwyr. Roedd y busnesau'n amrywio o ddanteithion i anifeiliaid anwes, tywelion microffibr, gemwaith wedi'u gwneud â llaw, celf a phrintiadau a chanhwyllau wedi'u gwneud â llaw.



Cynllun Mentoriaeth 'Start-up to CEO'

Mae'r cynllun yn partneru cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe sydd yn entrepreneuriaid llwyddiannus gyda darpar entrepreneuriaid sy'n fyfyrwyr gan ddarparu 6 mis o fentoriaeth. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei phasio ymlaen gan y cyn-fyfyrwyr yn adnodd amhrisiadwy i'r myfyrwyr, gan eu bod yn cael eu parhau ag entrepreneuriaid o'r diwydiant o'u dewis i gefnogi eu taith wrth sefydlu busnes. Mae'r fim menter myfyrwyr yn gweithio gyda'r adran cyn-fyfyrwyr i ddod o hyd i'r mentoriaid ac eleni, rhannodd 20 mentor eu hamser a'u cyngor gyda'r myfyrwyr oedd yn cael eu mentora.

Y Cynnig Mawr

Caiff y gystadleuaeth hon ei chynnal gan y fim menter myfyrwyr a'i nodd gan Santander Universities UK i gefnogi busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu gan fyfyrwyr ac arddangos rhai o'u mentrau arloesol. Yn y gystadleuaeth sy'n digwydd ddwy waith y flwyddyn cafwyd 47 o gynigion gan egin entrepreneuriaid.

Tachwedd 2023

- £8,500 wedi'i ddyfarnu i 5 busnes
- 10 busnes wedi derbyn mentoriaeth
- 14 lle ar raglenni sbarduno pwrpasol
- 2 fyfyrwr wedi derbyn cyfleoedd masnachu lleol
- £10,000 wedi'i ddyfarnu i 7 myfyriwr drwy Career Boost*

Mawrth 2024

- £7,500 wedi'i ddyfarnu i 8 busnes
- 10 busnes wedi derbyn mentoriaeth
- 6 lle ar raglenni sbarduno pwrpasol
- 2 fyfyrwr wedi derbyn cyfleoedd masnachu lleol
- £12,500 wedi'i ddyfarnu i 11 myfyriwr drwy Career Boost*

Adborth gan fyfyrwyr sy'n cymryd rhan

"Rydwi i wedi dysgu bod yn hyderus a mentrus. Does dim syniad yn rhy fach."


"Diolch i'r fim menter myfyrwyr, mae gennym bellach y cymorth a'r arian busnes hanfodol sydd eu hangen i fynd â'n syniad i'r lefel nesaf!"

47 MYFYRIWR WEDI CYFLWYNO CAIS AM GYLLID


20 BUSNES WEDI DERBYN LLEOEDD AR RAGLENNI SBARDUNO

13 BUSNES WEDI DERBYN CYLLID


4 CYFLE MASNACHU AR DRAWS ABERTAWE



- Ymchwilio i syniad - 28%
- Barod i lansio - 32%
- Lansio fy musnes - 40%



- Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol - 28%
- Cyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianeg - 50%
- Cyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd - 22%



- Is-raddedig - 74.5%
- Meistr - 17%
- PhD - 2.1%
- Graddedig - 7.1%



"* Mae Career Boost yn rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gael mynediad at gyfleoedd a chwalu rhwystrau. Trwy ein cydweithrediad â'r fim menter myfyrwyr, rhoddodd y fim Career Boost gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr ddatblygu eu syniadau busnes, a llywio eu taith gyrfa. Roedd y Big Pitch yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, a bu'r myfyrwyr yn rhwydweithio ac yn ffurfio partneriaethau gydag entrepreneuriaid llwyddiannus. Mae'r profiad hwn, ynghyd â'n cefnogaeth barhaus, yn grymuso myfyrwyr i lansio eu mentrau, gan gael effaith gadarnhaol ar eu canlyniadau fel graddedigion, gyda llawer yn sicrhau swyddi yn y sector o'u dewis neu'n llwyddo i dyfu'r busnesau rodden nhw wedi'u sefydlu."

Zdravka Kamenova, Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghori ar Yrfaedd

£90,745 WEDI'I FUDDSODDI MEWN

MENTRAU BUSNES

£15,000

GAN SANTANDER UNIVERSITIES UK I GEFNOGI LANSIO A THYFU BUSNESAU



£50,245

GAN GYN-FYFYRWYR I GEFNOGI MENTRAU BUSNES



£22,500

GAN Y TÎM CAREER BOOST I GEFNOGI MYFYRWYR SYDD HEB GYNRYCHOLAETH DDIGONOL WRTH SEFYDLU BUSNES



£3,000

GAN ENGINEERS IN BUSINESS I GEFNOGI INVENT FOR THE PLANET



YMRODDEDIG I STAFF


Mae'r brifysgol yn parhau i ddatblygu ei chymunedau mewnol, gan weithio ar y cyd i greu synergeddau a chysylltiadau ar draws tair cyfran y brifysgol a'r adrannau proffesiynol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cefnogi rhannu arferion gorau, adnoddau ac addysgu ar draws cyfadranau, er mwyn chwalu ffiniau a seilos traddodiadol a grymuso eraill i gyflawni entrepreneuriaeth.

Stodin Cynhadledd SALT

Mae Academi Dysgu ac Addysgu Prifysgol Abertawe wedi cynnal ei 16eg Cynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol. Thema'r gynhadleddeleni oedd "Meithrin Twfa Llwyddiant". Clywodd academyddion o bob rhan o'r brifysgol gan amrywiaeth o gydweithwyr a chyflwynwyr allanol a oedd yn rhannu eu harferion gorau. Bu'r fim menter myfyrwyr yn arddangos yn y gynhadledd ac yn rhoi gwybod i staff am y cymorth y gallant ei gynnig i ymgorffori entrepreneuriaeth yn eu modiwlau er mwyn creu graddedigion entrepreneuridd y mae byd busnes yn chwilio amdanynt.

118

HYRWYDDWR ENTREPREURIAETH YMYSG STAFF HYD YN HYN



Wedi'i greu ar y cyd â Phrifysgol Bangor, nod y papurywmeithringwybodaeth ddamcaniaethol am arferion a damcaniaethau Menter mewn Addysg Uwch. Mae'n dod â diffiniadau a dealltwriaeth allweddol at ei gilydd i godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am werth ymgorffori menter ac entrepreneuriaeth ar lefel modiwlau.

MARCHNATA AC YMGYSYLLTU

1,600

Y NIFER O WEITHIAU Y CAFODD FIDEOS ASTUDIAETHAU ACHOS EU GWYLIO AR YOUTUBE

2,670


O YMWELWYR Â GWEFAN MENTER MYFYRWYR

5,921


Y NIFER O WEITHIAU YR EDRYCHWYD AR TIKTOK

76,434

Y NIFER O ARGRAFFIADAU A WNAED AR DRAWS INSTAGRAM



Postiadau Noddedig LinkedIn



Fideos Astudiaethau Achos Sefydlu Busnes

Er mwyn annog mwy o fyfyrwyr i ystyried entrepreneuriaeth yn ystod eu hamser yn y brifysgol ac ar ôl graddio, rydyn ni wedi cynhyrchu cyfres newydd o astudiaethau achos ar ffurf fideo sy'n olrhain hanes myfyrwyr a graddedigion sydd wedi sefydlu busnes dros y blynyddoedd diwethaf.



DATHLU LLWYDDIANT

Gwobrau Triple E



Mae Gwobrau Rhagoriaeth mewn Entrepreneuriaeth ac Ymgysylltu Addysg Uwch Triple E yn gydnabyddiaeth fydeang sydd â'r nod o feithrin newid mewn prifysgolion a phwysleisio eu rôl yn eu cymunedau a'u hecosystemau.

Daeth Prifysgol Abertawe yn ail yn Ewrop ar gyfer Prifysgol Arloesol ac Entrepreneuriaidd y Flwyddyn, gwobr sy'n cydnabod sefydliadau academaidd sy'n enghraifft o gyflawniad arbennig wrth sefydlu a gweithredu ffurfiau arloesol o addysg menter. Amlygodd cais Abertawe pa mor gynhwysol yw rhagoriaeth entrepreneuriaidd wrth wraidd arloesedd yn ein sefydliad.

Gwobrau Sefydlu Busnes Cymru 2024 5 wedi cyrraedd y Rownd Derfynol mewn 5 categori, 2 Enillydd




Mae'r Gwobrau Dechrau Busnes yn cynnwys 35 categori ac yn cynnig cyfle i fusnesau ennill cydnabyddiaeth a sylw gan y cyhoedd a'r cyfryngau, gwneud cysylltiadau, rhwydweithio â buddsoddwyr posibl a dathlu'r hyn y mae busnesau newydd wedi ei gyflawni ym mlynnyddoedd cynnar eu taith ym myd busnes.



Gwobrau The Great British Entrepreneur Awards 2024

6 wedi cyrraedd y Rownd derfynol mewn 5 categori

Mae The Great British Entrepreneur Awards yn cydnabod gwaith caled a straeon llawn ysbrydoliaeth entrepreneuriaid Prydain.



SBOTOLAU AR FUSNESAU NEWYDD

Bowla

Sefydldd Hannah Worth Bowla yn 2022 yn ystod misoedd olaf ei MSc mewn Arwain a Rheoli Peirianeg. Sefydldd Hannah y busnes gyda'i thad, a greodd brototeip unigryw ac arloesol ar gyfer rhodyn bara ar ffurf het gron. Ers hynny, mae Hannah wedi derbyn mentoriaeth drwy fenter Start-up to CEO y tim menter myfyrwyr yn ogystal â chyllid i'w busnes trwy'r Gystadleuaeth Big Pitch, a ariennir gan Santander Universities UK.

Ym mis Ebrill 2023, agorodd Hannah ei siop gyntaf ym Marchnad Abertawe ac ers hynny, mae'r busnes wedi mynd o nerth i nerth. Mae Hannah wedi cael sylw mewn erthyglau newyddion lleol a chenedlaethol ac wedi cael ei henwebu ar gyfer Entrepreneur y Flwyddyn. Aeth ymlaen hefyd i ennill ei chategori ym Marchnad Genedlaethol Masnachwyr Ifanc De Cymru, lle cafodd ei chanmol yn y rownd derfynol genedlaethol ym mis Awst 2023.



Aldi's Next Big Thing


Ymddangosodd Hannah ar raglen Channel 4, Aldi's Next Big Thing. Mae'r rhaglen yn gweld arloeswyr ym maes bwyd a diod yn cyflwyno cynigion i ennill contract gydag Aldi a fydd yn newid eu bywydau gan y byddai eu cynnyrch yn cael ei gynnwys mewn siopau ledled y DU. Cafodd Hannah a'i thad Clayton, cyd-sylfaenydd y busnes, eu dewis ymhlith cannoedd o geisiadau i ymddangos ar y rhaglen i arddangos eu cynnyrch i'r genedl.



Air View Engineering

Mae Air View Engineering Ltd, a gyd-sefydlwyd yn 2021 gan Simon Oliver a Matthew Tucker, graddedigion MEng mewn Peirianeg Fecanyddol, yn fusnes newydd arloesol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu systemau arloesol Dal Aer yn Uniongyrchol ar gyfer cael gwared ar garbon deuocsid. Mae'r cwmni wedi cyflawni cerrig milltir sylweddol o ran datblygu systemau, ariannu a chydweithio, sy'n arwydd o'i dwf yn y sector dal carbon.

Datblygodd y cwmni ei system weithredol gyntaf rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2021. Dilysodd y system hon y rhagdybiaeth y tu ôl i'w dull newydd o gyfyngu deunydd dal ar ffurf pelenni. Rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Hydref 2024, dyrannwyd cyllid i'r fim gan Innovate UK a Llywodraeth Cymru. Gyda'r arian hwn, roedd modd iddynt ganolbwyntio ar ddatblygu deunyddiau argyferu cynnyrch.



Mae Air View Engineering wedi sicrhau cyllid sylweddol, gan gynnwys Grant Smart Grant Innovate UK o £411,000 a Grant Smart Grant pellach o £435,000. Mae uchafbwyntiau cyllid eraill yn cynnwys cefnogaeth gan y rhaglen sbarduno, European Climate Kick Accelerator, Offshore Renewable Energy Catapult, a Phrifysgol Abertawe. Mae eu gwaith ymchwil a datblygu wedi profi datblygiadau arloesol sy'n golygu y byddant yn cael effaith nid yn unig ym maes dal carbon ond hefyd ym maes gwresogi gofod, mewn cydweithrediad â Superstone Radiant Heating. Mae gan y cwmni'r potensial i chwyldroi systemau gwresogi ynni-ffeithlon.

BUSNESAU NEWYDD 2023-2024

10SMM

Elliot Das Gupta
Rheoli Cyfryngau a Hysbysebu

3jmireviews

Khaled Ahmed Sayed Ahmed
Adolygiadau Bwyta

A Strange Event

Aleksandra Pawska
Gemwaith wedi'i wneud â llaw

Abby Decker

Abby Decker
Osteopath hunangyflogedig

Advance Body Therapies

Rebecca Messenger
Osteopath hunangyflogedig

All Bright Cleaning Agency

Madyson Delegado
Asiantaeth Lanhau

All Photography

Amy Lloyd
Ffotograffydd

Amelie Ng

Amelie Ng
Ffotograffydd

Anisha Patel

Anisha Patel
Gwasanaeth Cyfryngau Cymdeithasol
Llawrydd

Annette Davidson

Annette Davidson
Osteopath hunangyflogedig

ATB Marketing

Adamson Bamisedun
Ymgynghoriaeth Farchnata

Baking with Abbie

Abbie Garland
Pobydd

Bethan Fellowes Osteopathy

Bethan Fellowes
Perchennog Clinig Osteopath

BWY Clothing

Amber Rigg
Brand Dillad

Charlie Croy Clothing

Charlie Croy
Manwerthwr dillad wedi'u gwneud â llaw

ClearEar

Bethany Hatten & James Wood
Gwasanaethau Gofal Clustiau

Crown of Thorns UK

Timothy Abiade
Brand Dillad

Crowned Co

Khaled Ahmed Sayed Ahmed
Gwasanaethau Brandio

Cybrancee

Joshua Richardson
Gwasanaethau Gwefan

Dahan Van Hire

Sammer Dahan
Gwasanaethau Llogi a Chludo Fan

Daniel Toher

Daniel Toher
Osteopath hunangyflogedig

Deray Apparel

Fyn Caudery
Brand Dillad

DHN Deluxe

Sammer Dahan
Manwerthwr Esgidiau

DMZ Tech Ltd

Paul Wasswa
Partner Seiber-Effro a Seiber-Ddiogelwch

Dragon Wire Studios

Scott Murphy
Datblygwr Realiti Rhithwir Addysgol

Elfies Rigs

Ellis McGauley
Manwerthwr Offer Pysgota

Ethan Roper Photography

Ethan Roper
Ffotograffydd

Evo_Pod

Amin Rabia
Podlediad addysgol

Filter Coffee Roaster

Jack Gourlay
Micro Rostiwr Coffi Arbenigol

Fuel Your Friends

Jay Gibbson
Meddalwedd Rhannu Taliadau Petrol

George Hopkins

George Hopkins
Osteopath hunangyflogedig

H2Grow

Ben Taylor
Acwaponeg

HairConnect

Bradley Ayisi
Ap Arbenigol Gwallt

HamyuCouture

Hameeda Adagun
Brand Dillad Arbenigol

Honor-Bryce Morris

Honor-Bryce Morris
Osteopath hunangyflogedig

Ieuan Jones

Ieuan Jones
Artist Perfformio Llawrydd

India Cooke

India Cooke
Osteopath hunangyflogedig

Ink Illuminated

Anya Miller
Arlunydd

It's Well Hung

Henry Tang
Ategolion Cartref – Argraffu 3D

James Bray

James Bray
Osteopath hunangyflogedig

Jamie Soft Tissue Therapy

Jamie Scutt
Osteopath hunangyflogedig

Joshua Maney

Joshua Maney
Osteopath hunangyflogedig

Kaiser Customs Limited

Sammer Dahan
Arbenigwr Addasu Cerbydau

Katie Sanders

Katie Sanders
Osteopath hunangyflogedig

Kay Kaitlin Fletcher

Kay Kaitlin Fletcher
Hyfforddwr Badminton hunangyflogedig

Kosants Store

Anton Ahmetaj
Cyflenwr Nythod Morgrug

Ladies of Law

Ella Watts
Sefydlydd Rhwydwaith Menywod y Gyfraith

Laura Bullimore

Laura Bullimore
Osteopath hunangyflogedig

Lauryn Davey

Lauryn Davey
Ymgynghorydd Chwaraeon Llawrydd

Leadsphere

Sam Jones
Ffotograffydd

Lyndsey McConnell Marking

Lyndsey McConnell
Marcwr a Hyfforddwr Hunan-Gyflogedig

Megan Roberts

Megan Roberts
Osteopath hunangyflogedig

MeggyMakesCo

Megan Roberts
Eitemau Crosio wedi'u gwneud â llaw

Mel's Maids

Milena Tomaszewska
Asiantaeth Lanhau

Mohammed Al Nabhani

Mohammed Al Nabhani
Osteopath hunangyflogedig

Moreover

Abdulrahman Kamal
Twristiaeth, Cynaliadwyedd a Marchnata

MT Events LTD

Milena Tomaszewska
Cwmni Digwyddiadau

Mustapha Bello Abubaker

Mustapha Bello Abubaker
Datblygwr Meddalwedd Llawrydd

My Maintenance Matters

Morgan Chell
Garddwr hunangyflogedig

Navitron Business Solutions

Shawn De Souza
Gwasanaethau AI i Fusnesau

NeuproScan

George Theocharidis
Diagnosteg Alzheimer's Dysgu Peiriant

Nikolas Charalambous

Nikolas Charalambous
Osteopath hunangyflogedig

Noise Makers

Jakub Kramp
DJ hunangyflogedig

Not Just Three Lifts

Dylan Morgan
Hyfforddiant Personol

Onchain Bureau Ltd

Nahuel Angelone-Oliver
Ymchwilio Blockchain a Cryptoarian

Oscan

Tom Broad
Brand Dillad

OT Gardening Services

Oliver Trigg
Garddwr Hunan-Gyflogedig a Gwasanaeth
Trin Coed

Paige Hepworth Art

Paige Hepworth
Celf wedi'i wneud â llaw

Pharma-See

Geraint Jones
Cwmni Realiti Rhithwir Addysgol

Platform Marketing SMMA

Lauren Westbrook
Cwmni Marchnata

Rapid Shapes

Saurav Korde
Gwasanaethau Argraffu 3D

Rebecca Austen

Rebecca Austen
Osteopath hunangyflogedig

Replanted Horizon Estates & Lettings

Samanta Mbidi-Nguema
Asiantaeth Cyrchu Bargeinion Prynu Eiddo

Reputation Online

Jeevan Mann
Rheoli Enw Da Ar-lein

Rings27

Rose Lester
Gemwaith wedi'i wneud â llaw

Ryde Store

Larnia Ryder
Brand Dillad

Samuel Ashamn

Samuel Ashamn
Datblygwr Gwe Llawrydd

Serene Adventure Photography

Curtis Blanchard-Lewis
Photographer

Special Care Mobile Clinics

Sharon Rose Koppolu
Gwasanaethau Meddygol ar gyfer Awtistiaeth

Split Tipps Boulderling

Ishtar Wiit
Brand Dillad Dringo

Summit Strength Club

Bradley Roderick
Hyfforddwr Personol

Th4 Collective

Sanni Haruna
Cwmni Rheoli Digwyddiadau

The Elysian

Harry Wilson
Gwerthu Celf Drud ar-lein

The Garden Post

Jemma Matthews
Cyflenwr Ategolion Gardd

The Little Chippy

Samantha Williams
Siop Sglodion a Tecawê

TheKnitChronicles

Sophie Harding
Ategolion wedi'u gwau â llaw

TheWholesomeChef

Josh Dunn
Brand Ffordd o Fyw

Therapi Trystan

Trystan Lloyd
Osteopath hunangyflogedig

Tommy Mansell

Tommy Mansell
Marchnatwr Digidol Llawrydd

Tree Society CIC

Hal Szary & Jean-Louis Button
Cwmni Buddiant Cymunedol Plannu
Coed a Chyfrannu at Niwtraleiddio
Carbon




VM Nourishment

Malika Abdullaeva
Hyfforddwr Lles a Maeth

Woosh Events

Roy Chizana
Rheoli Digwyddiadau

EIN BLWYDDYN MEWN LLUNIAU





Prifysgol
Abertawe
Swansea
University



www.swansea.ac.uk/enterprise

